YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2025 – Y Traeth -Miss James

Pwrpas yr uned ddysgu hon yw rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu i fod yn unigolion iach a hyderus wrth ddysgu am fwydydd amrywiol ac am bwysigrwydd deiet cytbwys. Caiff y dysgwyr cyfleoedd i ddatblygu corff o wybodaeth a geirfa am fwyd. Bydd y plant yn cael cyfleoedd i gymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau bob dydd trwy ddysgu am wahanol fathau o ddeiet, am blât iachus ac am yr hyn a olygir wrth '5 y dydd'.

Caiff y dysgwyr cyfleoedd i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu wrth ddefnyddio eu synhwyrau i archwilio bwydydd amrywiol. Gobeithiwn ddatblygu cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n gallu cyfathrebu yn effeithiol wrth fynegi eu syniadau am yr hyn maent yn ei hoffi.

Anelwn at ddatblygu dysgwyr gwybodus sy'n ymwybodol o'u hawliau; enwedig 'yr hawl i fwyd a dŵr da' (erthygl 24). Ymdrechwn i ddatblygu dysgwyr chwilfrydig ac ymholgar, sy'n gofyn cwestiynau'n naturiol er mwyn darganfod mwy.

Ar ddiwedd yr uned ddysgu hyderwn bydd y dysgwyr yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n meddu ar sgiliau a'r wybodaeth i ddechrau rheoli eu bywydau bod dydd. Byddant yn gallu cysylltu â chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn cynllunio a pharatoi picnic iach a chytbwys i bawb fwynhau.

## Bant â ni i gynllunio!




Rydych chi'n defnyddio arian i brynu pethau yn y siop.
Catrin.

Dydw i ddim yn hoffi orennau, ond rwy'n hoffi afalau.
Caio.

Rwy'n hoffi pobi cacennau.
Anwen

Gallwn gael caffi yn yr ysgol.
Harri

Rydw i eisiau mynd i siop donuts.
Emilia

Rwy'n hoffi coginio.
Rhys

Rydw i'n helpu dad i goginio.
Renata

Mae'n rhaid i chi olchi'ch dwylo cyn coginio.
Iris

Gallwn dyfu rhai bwydydd. Mae angen pridd a dŵr arnyn nhw.
Isabella

YSGOL GYMRAEG

# Tymor y Gwanwyn 2025 – Y Traeth -Miss James



Syniad mawr y tymor hwn:

## Beth sydd yn y fasged siopa?

Dyma rhai o'n syniadau.

**Y Dyniaethau**
- Ffurfio barn am yr hyn rwyf yn ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi
- Dysgu am fwydydd o wahanol wledydd
- Bod yn chwilfrydig am draddodiadau Cymru wrth ddysgu am Dewi Sant
- Dysgu am draddodiadau Santes Dwynwyn, Dydd Gwyl Dewig a Pasg

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Defnyddio ystod o gyfryngau i dynnu lluniau croestoriadau o ffrwythau a llysiau
- Defnyddio llysiau a ffrwythau i greu 'celf dros dro'

**Iechyd a Lles**
- Gwneud penderfyniadau yn seiliedig i fy hoff fwydydd
- Dysgu am wahanol fathau o fwydydd a grwpiau bwyd; y plat iachus a phwysigrwydd 5 y dydd
- Dysgu am wahanol deiet, yn cynnwys figaniaeth
- Trwy chwarae, archwilio, darganfod a gofyn cwestiynau
- Dechrau deall am bwysigrwydd hylendid wrth goginio a pharatoi bwyd
- Ymarfer a datblygu fy sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Creu cornel chwarae rôl 'caffi /bwyty pitsa' (dysgwyr i bleidleisio)
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Dysgu stori ar gof trwy defnyddio dull Pie Corbett
- Gweithgareddau cyn darllen / ysgrifennu, e.e. gemau gwrando, gweithgareddau *POPAT*
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e. rhestrau siopa a rysait coginio.

**Mathemateg a Rhifedd**
- Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau
- Dosbarthu bwydydd a chasglu data a'i gyflwyno am ei hoff fwyd
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am fy synhwyrau gan ganolbwyntio ar arogli, blasu a theimlo
- Danogs chwilfrydedd o sut mae bwydydd yn newid wrth cael ei goginio
- Dysgu am brosesau coginio, ymdoddi, rhewi a chymysgu
- Paratoi amrywiaeth o brydau/fwydydd e.e. kebab ffrwythau, cawl neu pice ar y maen.
- Defnyddio ystod o offer yn ddiogel
- Paratoi picnic
- Cynnal ymchwiliad wyddonol yn defnyddio tiniau bwyd
- Dylunio gwahoddiad i bicnic ar y cyd gan ddefnyddio meddalwedd cyfarwydd